Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Adolygiad Craffu Manwl Adroddiad Cynnydd

## A yw Heddlu Dyfed-Powys yn rheoli cyflawnwyr stelcio ac aflonyddu yn effeithiol?

**Ionawr 2025**

Ionawr 2025

## Cynnwys

Trosolwg ........ 2
Llywodraethu ........ 2
Argymhelliad Cynnydd ........ 2
Argymhellion Adnoddau ........ 3
Argymhellion Hyfforddiant ........ 3
Argymhellion Data ........ 5
Argymhellion Ymyriadau Cyflawnwyr ........ 7
Argymhellion Monitro Cyflawnwyr ........ 9
Argymhellion Dioddefwyr ........ 10
Diweddariad ar Argymhellion SCHTh ........ 10
Casgliad ........ 11

Ionawr 2025

## Trosolwg

Yn 2023, cynhaliodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu adolygiad craffu manwl, gan ofyn y cwestiwn, *A yw Heddlu Dyfed-Powys yn rheoli cyflawnwyr stelcio ac aflonyddu yn effeithiol?*

O ganlyniad i'r adolygiad, gwaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh) sawl argymhelliad ym meysydd 'Adnoddau', 'Hyfforddiant', 'Data', 'Ymyriadau Cyflawnwyr', 'Monitro Cyflawnwyr', a 'Dioddefwyr'. Mae'r adroddiad llawn ar gael ar wefan SCHTh.

Mae cynnydd yn erbyn pob un o'r argymhellion yn cael ei adrodd i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu gan Heddlu Dyfed-Powys bob chwe mis. Yn ei dro, mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn darparu Adroddiad Cynnydd i'r Panel Heddlu a Throseddu.

Darparodd yr adroddiad diwethaf ddiweddariadau ym mis Mehefin 2024 ac mae ar gael ar wefan y Panel Heddlu a Throseddu fel rhan o'r 'Pecyn Adroddiadau Cyhoeddus' ar gyfer cyfarfod Gorffennaf 2024 (tudalen 131).

Mae'r adroddiad presennol hwn yn rhoi manylion i'r Panel Heddlu a Throseddu am gynnydd Heddlu Dyfed-Powys yn erbyn yr argymhellion, fel y'i rhannwyd â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ym mis Ionawr 2025.

## Llywodraethu

Mae'r ymateb strategol i stelcio ac aflonyddu yn cael ei arwain gan Brif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu Dyfed-Powys a'r Ditectif Uwcharolygydd ar gyfer Diogelu Pobl Fregus.

Mae'r argymhellion a osodir gan SCHTh yn cael eu monitro drwy Fwrdd Op Rhagorol Heddlu Dyfed-Powys, lle mae ffocws ar gynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu lleol a chenedlaethol ac argymhellion sy'n gysylltiedig â'r portffolio amddiffyn pobl fregus.

## Argymhelliad Cynnydd

Yn adroddiad SCHTh ym mis Gorffennaf 2024, rhoddwyd sgôr 'coch, melyn, gwyrdd' i bob argymhelliad i ddangos y cynnydd a wnaed:

| | |
|---|---|
| Coch | Nid oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud. |
| Melyn | Mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud ond mae angen mwy. |
| Gwyrdd | Mae'r argymhelliad wedi'i gwblhau. |

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar yr argymhellion sydd wedi'u nodi'n goch neu'n felyn yn adroddiad Mehefin 2024 yn unig. Nid yw'r argymhellion a nodwyd yn flaenorol eu bod wedi'u cwblhau yn cael eu hystyried.

Roedd adroddiad Mehefin 2024 yn rhoi manylion am ymateb cychwynnol yr heddlu i bob argymhelliad a diweddariad Chwefror 2024. Mae'r ddwy elfen hyn wedi'u tynnu o'r adroddiad hwn er mwyn darparu dogfen fwy cryno i'r Panel Heddlu a Throseddu, gyda'r wybodaeth ddiweddaraf: Diweddariadau Mehefin 2024 ac Ionawr 2025. Mae diweddariadau blaenorol ar gael yn adroddiad mis Mehefin 2024 a gysylltir uchod.

Ionawr 2025

## Argymhellion Adnoddau

**Argymhelliad 1: Dylai'r heddlu glustnodi cyllid cynaliadwy tymor hwy ar gyfer swydd Cydgysylltydd Cyflawnwr Cam-drin Domestig a Stelcio.**

**Cynnydd Ionawr 2025**

- Nid oes cyllid tymor hir wedi'i sicrhau eto ar gyfer hyn.
- Mae'n faes twf a nodwyd ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys, ac mae'r swydd wedi'i dogfennu fel un 'sy'n ofynnol' yng Nghylch Cynllunio a Sicrwydd yr heddlu a Datganiad Rheoli'r Heddlu.
- Y gobaith oedd y byddai achos busnes y gynhadledd asesu risg amlasiantaeth a oedd yn gofyn am gyllid gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn rhyddhau arian i dalu am y swydd hon, fodd bynnag mae'r achos busnes yn dal i gael ei drafod.
- Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi pwysleisio pwysigrwydd swydd Cydgysylltydd Cyflawnwyr Cam-drin Domestig a Stelcio: *Mae hyd yn oed yn fwy pwysig ac annatod yn dilyn cyhoeddi'r uwch-gwyn stelcio <https://www.gov.uk/government/publications/super-complaint-on-the-police-response-to-stalking>* ym mis Medi 2024.

**Cynnydd Mehefin 2024**

- Mae cyllid wedi'i gadarnhau tan fis Ebrill 2025. Mae'r heddlu'n ceisio cyllid tymor hir.

**Gweithgaredd monitro parhaus SCHTh**

- Mae SCHTh yn ceisio cadarnhau trefniadau ariannu. Bydd pryderon yn ymwneud â threfniadau partneriaethau ariannu ehangach yn cael eu codi gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu dros yr wythnosau nesaf.

## Argymhellion Hyfforddiant

**Argymhelliad 4:Dylai'r heddlu adolygu effaith y rhaglen hyfforddi Hyrwyddwyr Stelcio ar ei newydd wedd o fewn 12 mis i'w gweithredu. Dylai'r adolygiad hwn gynnwys ystyriaeth o adborth gan ddioddefwyr, canlyniadau a data aildroseddu.**

**Cynnydd Ionawr 2025**

- Mae'r broses gaffael ar gyfer darparu hyfforddiant eiriolwr stelcio wedi'i chwblhau. Bydd Paladin, y Gwasanaeth Eirioli Stelcio Cenedlaethol, yn cyflwyno rhaglen hyfforddi tair blynedd i Heddlu Dyfed-Powys.
- Mae cyllid yn cael ei gadarnhau ar hyn o bryd, a bydd cynllun gweithredu'n cael ei drafod â Paladin, i ddechrau hyfforddiant Hyrwyddwr Stelcio o fis Ebrill 2025.
- Mae Maes i'w Wella Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi ar gyfer darparu hyfforddiant sy'n ymwneud â bregusrwydd (gan gynnwys stelcio) wedi'i gymeradwyo i'w gwblhau gyda thystiolaeth glir o gynnydd, gan y Dirprwy Brif Gwnstabl.

**Cynnydd Mehefin 2024**

- Cyflwynwyd diwrnod hyfforddi Hyrwyddwyr Cam-drin Domestig ym mis Mawrth/Ebrill 2024, dan arweiniad Hyfforddwr Bregusrwydd Heddlu Dyfed-Powys.
- Mynychodd yr holl hyrwyddwyr ddigwyddiadau uwchsgilio a rhannu gwybodaeth yn ystod Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth o Stelcio ym mis Ebrill 2024.

Ionawr 2025

- Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi cynnal diwrnod asesu risg ar gyfer Swyddogion Cam-drin Domestig a'r Uned Asesu Risg Eilaidd, a ystyrir yn hyrwyddwyr.
- Mae Heddlu Dyfed-Powys yn cynnal trafodaethau â Paladin mewn perthynas â darparu hyfforddiant Hyrwyddwr Stelcio yn ddiweddarach eleni, er nad oes cyllid wedi'i sicrhau eto.
- Bydd gwerthusiad ffurfiol o'r mewnbynnau rheolaidd yn cael ei gwblhau ym mis Chwefror 2025.

**Gweithgaredd monitro parhaus SCHTh**

- Bydd SCHTh yn gofyn am ddiweddariadau rheolaidd ynghylch yr hyfforddiant.

**Argymhelliad 6: Dylai'r heddlu geisio adborth penodol gan swyddogion ar fewnbynnau gan ddioddefwyr a goroeswyr mewn unrhyw arolygon hyfforddi yn y dyfodol.**

**Cynnydd Ionawr 2025**

- Rhwng Ionawr ac Ebrill 2025, bydd pob swyddog heddlu yn dilyn hyfforddiant stelcio (sy'n cynnwys hyfforddiant gorfodol y Coleg Plismona).
- Defnyddir astudiaethau achos dioddefwyr/goroeswyr o fewn modiwlau rhyngweithiol i annog trafodaeth ac adborth.
- Cesglir adborth ar ôl pob sesiwn er mwyn deall yr effaith y mae clywed astudiaethau achos dioddefwyr/goroeswyr wedi'i chael arnynt yn ystod y sesiwn.
- Mae adborth cychwynnol o'r sesiynau cynnar ym mis Ionawr wedi bod yn gadarnhaol ac wedi amlygu natur effeithiol y mae mewnbwn dioddefwyr/goroeswyr yn ei gael a budd eu cael o fewn y pecyn hyfforddi.

**Cynnydd Mehefin 2024**

- Mae'r Ditectif Uwcharolygydd ar gyfer diogelu pobl fregus wedi clywed yn anecdotaidd bod swyddogion heddlu yn cefnogi clywed gan y rhai sydd â phrofiad personol yn ystod hyfforddiant.
- Bydd hyn yn cael ei ystyried yn ffurfiol fodd bynnag yn y gwerthusiad uchod.

**Gweithgaredd monitro parhaus SCHTh**

- Mae Heddlu Dyfed-Powys yn nodi bod adborth swyddogion ar gynnwys astudiaethau achos o ddioddefwyr-goroeswyr yn cael ei gasglu ar ôl pob sesiwn hyfforddi. Bydd SCHTh yn ystyried ymhellach sut y gellir asesu effaith hyfforddiant ar gyflwyno gwasanaeth.

**Argymhelliad 7: Dylai'r heddlu ystyried sut y gallai dysgu o adroddiad ymgyrch Soteria Bluestone fod yn berthnasol ac yn berthnasol i blismona stelcio ac aflonyddu.**

**Cynnydd Ionawr 2025**

- Mae Heddlu Dyfed-Powys o'r farn bod sawl cynnyrch o fewn model gweithredu cenedlaethol ymgyrch Soteria Bluestone[1] a fyddai'n fuddiol i'r portffolio stelcio:

[1] *"Mae ymgyrch Soteria Bluestone yn rhaglen ymchwil a newid genedlaethol a ariennir gan y Swyddfa Gartref […] i alluogi heddluoedd i drawsnewid eu hymateb i dreisio a throseddau rhywiol difrifol."* https://www.npcc.police.uk/our-work/violence-against-women-and-girls/operation-soteria/

- Canllaw Gwybodaeth i Ddioddefwyr sy'n bwrpasol i ddioddefwyr stelcio (yn debyg i'r canllaw newydd a ddatblygwyd ar gyfer dioddefwyr trais rhywiol a throseddau rhywiol difrifol eraill).
- Proffil Problem – proffil problem stelcio blynyddol a fydd yn caniatáu gwell dealltwriaeth o'n problem ac yn caniatáu ar gyfer cyfleoedd atal a phenderfyniadau strategol.
- Mae piler 2 ymgyrch Soteria yn canolbwyntio ar darfu ar droseddwyr ac mae'n cynnwys pecyn cymorth y gellir ei ddefnyddio hefyd ar gyfer troseddwyr stelcio. Bydd y cynnyrch hwn yn cael ei ystyried i'w ddefnyddio yn y Rhaglen Ymyrraeth Stelcio Amlasiantaeth (MASIP).
- Mae'r cysyniad o swyddog ymgysylltu â dioddefwyr a hyrwyddir yn ymgyrch Soteria yn cael ei ystyried gan dîm adolygu'r heddlu fel rhan o fodelau'r dyfodol.

- Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi rhoi sicrwydd i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu bod y cynllun gweithredu uwch-gŵyn stelcio, strategaeth bregusrwydd, camau gweithredu trais yn erbyn menywod a merched, a'r holl gamau gweithredu tebyg sy'n gysylltiedig â bregusrwydd a gwaith parhaus yn cael eu coladu o fewn un cynllun datblygu Diogelu Pobl Fregus.

**Cynnydd Mehefin 2024**

- Rhoddodd y Ditectif Uwcharolygydd ar gyfer Diogelu Pobl Fregus wybod am ddysgu allweddol o ymgyrch Soteria mewn perthynas ag ymgysylltu â dioddefwyr. Er enghraifft:
  - Mae Heddlu Dyfed-Powys yn edrych ar sut maent yn gweithredu ymgysylltiad a chyswllt parhaus dioddefwyr; ac
  - maent yn gwneud y defnydd gorau o gyngor cynnar gan Wasanaeth Erlyn y Goron; proses a anogir trwy ymgyrch Soteria.

**Gweithgaredd monitro parhaus SCHTh**

- Mae SCHTh wedi penderfynu bod y cam hwn wedi'i gwblhau. Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi rhoi tystiolaeth o ystyriaeth o gymhwyso dysgu o ymgyrch Soteria Bluestone i'r portffolio stelcio ac aflonyddu.
- Mae staff SCHTh yn mynychu cyfarfodydd mewnol ac amlasiantaeth rheolaidd a byddant yn parhau i oruchwylio cynnydd sy'n gysylltiedig ag ymgyrch Soteria a'r cynllun datblygu Diogelu Pobl Fregus.

## Argymhellion Data

**Argymhelliad 8: Os nad ydynt yn gwneud hynny eisoes, dylai'r heddlu nodi'r dulliau atal ac ymyrryd a ddefnyddir yn erbyn troseddwyr mynych yn eu hadroddiadau proffil troseddau yn y dyfodol.**

**Cynnydd Ionawr 2025**

- Mae cais am ddangosfwrdd Power Bi wedi'i gyflwyno i alluogi adnabod troseddwyr mynych.
- O dan yr uwch-gŵyn stelcio, mae Heddlu Dyfed-Powys yn edrych ar ddatblygu'r clinigau stelcio i fod yn Rhaglen Ymyrraeth Stelcio Amlasiantaeth, a fydd yn ceisio atal troseddu yn y dyfodol trwy ddefnyddio amrywiaeth o gyfleoedd ymyrryd, gan gynorthwyo i adnabod pobl a ddrwgdybir eu bod yn troseddu dro ar ôl tro.

- Mae achos busnes Tasgio a Chydgysylltu Amlasiantaeth wedi'i wrthod gan Brif Swyddogion am resymau cynyddu nifer swyddogion yr heddlu/ariannol ac felly bydd yn cael ei adolygu fel rhan o adolygiad yr heddlu cyfan.

**Cynnydd Mehefin 2024**

- Er mwyn nodi troseddwyr mynych yn effeithiol a'u hystyried ynghyd â'r ymyriadau a ddefnyddiwyd, mae'r Ditectif Uwcharolygydd ar gyfer Diogelu Pobl Fregus wedi ysgrifennu papur opsiynau ar gyfer y Prif Gwnstabl Cynorthwyol, yn nodi proses Tasgio a Chydgysylltu Amlasiantaeth newydd.
- Bydd gwelliannau mewn prosesau data (gweler Argymhelliad 9) yn galluogi mwy o ystyriaeth i ddulliau atal/ymyrraeth o fewn adroddiadau proffil trosedd.

**Gweithgaredd monitro parhaus SCHTh**

- Ceisir sicrwydd gan Heddlu Dyfed-Powys bod prosesau amgen ac effeithiol yn cael eu hystyried gan Heddlu Dyfed-Powys fel rhan o adolygiad yr heddlu cyfan.

**Argymhelliad 9: Dylai'r heddlu ehangu ei ddangosfyrddau perfformiad i alluogi craffu agosach ar geisiadau am orchmynion sifil a'r achosion o dorri gorchmynion sifil.**

**Cynnydd Ionawr 2025**

- Tra bod y Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil yn parhau i gadw rhestr o gyflawnwyr sy'n destun gorchmynion sifil, mae cais ffurfiol wedi'i gyflwyno i'r Uned Gwella Gwasanaeth am gymorth i ddatblygu data stelcio ac amlygu data o'r fath trwy ddangosfyrddau. Disgwylir canlyniad cyfarfod blaenoriaethu'r Uned Gwella Gwasanaeth, er mwyn deall yr amserlenni.
- Mae'r Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil hefyd wedi hysbysu SCHTh o drafodaethau mewnol parhaus ynghylch newid posibl yn y broses, lle byddai digwyddiad unigol newydd yn cael ei greu ar system yr heddlu ar gyfer pob gorchymyn sifil y gofynnir amdano. Byddai hyn yn gwella effeithlonrwydd monitro ceisiadau am orchmynion sifil a thorri amodau.

**Cynnydd Mehefin 2024**

- Yn unol ag Argymhelliad 2, mae'r Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil yn llunio rhestr o gyflawnwyr sy'n destun gorchmynion sifil. Mae angen lanlwytho'r broses hon i ddangosfwrdd perfformiad ac mae trafodaethau'n parhau ynghylch yr hyn y mae angen i'r dangosfwrdd ei gynnwys.
- Mae Dadansoddwr Bregusrwydd wedi'i recriwtio ac mae'n adolygu'r data sydd ar gael ar hyn o bryd er mwyn cyfoethogi'r data a ystyriwyd mewn byrddau perfformiad.
- Mae Rheolwr Perfformiad Heddlu Dyfed-Powys ar hyn o bryd yn asesu a yw Heddlu Dyfed-Powys yn delio'n effeithiol ag achosion o dorri amodau: Darn o waith heriol a fydd yn gwella gallu Heddlu Dyfed-Powys i fonitro ac ymateb i doriadau.

**Gweithgaredd monitro parhaus SCHTh**

- Er mwyn parhau i oruchwylio'r gwaith o fonitro a chraffu ar orchmynion a thoriadau, bydd SCHTh yn parhau i ymgysylltu â'r Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil.

- Ceisir diweddariadau mewn perthynas â datblygiad y dangosfyrddau perfformiad.

## Argymhellion Ymyriadau Cyflawnwyr

**Argymhelliad 11: Dylai gwaith i wreiddio'r Offeryn Blaenoriaethu Cyflawnwyr o fewn Niche gael ei flaenoriaethu gan yr heddlu, er mwyn peidio ag anghofio am y prosiect hollbwysig hwn.**

**Cynnydd Ionawr 2025**

- Er bod y broses interim yn parhau, mae gan yr Uned Gwella Gwasanaeth y dasg o hyd i ailadeiladu'r Offeryn Blaenoriaethu Cyflawnwyr. Mae datblygiad yr Uned Gwella Gwasanaeth yn cael ei flaenoriaethu ar sail risg.
- Mae cynnydd yn cael ei fonitro drwy strwythur llywodraethu'r heddlu.

**Cynnydd Mehefin 2024**

- Mae'r broses interim o ddangosfwrdd Power BI i nodi cyflawnwyr mynych yn parhau yn ei lle.

**Gweithgaredd monitro parhaus SCHTh**

- Parheir i geisio diweddariadau gan Heddlu Dyfed-Powys mewn perthynas â datblygu Offeryn Blaenoriaethu Cyflawnwyr.

**Argymhelliad 12: Dylai Heddlu Dyfed-Powys geisio sicrwydd bod swyddogion ymchwilio yn ystyried defnyddio amrywiaeth o ymyriadau, gan gynnwys gorchmynion sifil, fel rhan o'u strategaethau rheoli cyflawnwyr, ac ar y cam cynharaf posibl o ymchwiliad.**

**Cynnydd Ionawr 2025**

- Fel y crybwyllwyd yn flaenorol, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi bod yn datblygu'r clinigau stelcio i alinio ag egwyddorion Rhaglen Ymyrraeth Stelcio Amlasiantaeth. Bydd hyn yn sicrhau bod mwy o asiantaethau'n cymryd rhan a bod mwy o ymyriadau'n cael eu hystyried.
- Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gymorth ariannol ar gyfer proses Rhaglen Ymyrraeth Stelcio Amlasiantaeth, ond bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y cynllun Diogelu Pobl Fregus Adrannol ar gyfer 2025-26, gan geisio cymorth.
- Mae adroddiad SCHTh o adolygiad Panel Sicrwydd Ansawdd Awst 2024 a grybwyllir isod o achosion stelcio ac aflonyddu ar gael ar wefan <https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/csijfimz/ymarfer-hapsamplu-y-panel-craffu-awst-2024.pdf> Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. O fewn y tri recordiad o fideo camera corff a welwyd, ni chlywyd unrhyw swyddog yn trafod opsiynau gorchmynion sifil. Fodd bynnag, canfu aelodau'r Panel Sicrwydd Ansawdd gyfeiriad at ystyried Gorchymyn Amddiffyn rhag Stelcio yn un o gofnodion cysylltiedig yr heddlu: Er na chafodd ei gymhwyso, cafodd Gorchymyn Amddiffyn rhag Stelcio ei ystyried gan Gydgysylltydd Cynlluniau Cyflawnwyr Cam-drin Domestig a Stelcio Heddlu Dyfed-Powys, a bu ymgysylltu cynnar â'r Gwasanaethau Cyfreithiol.
- Mae SCHTh wedi gweld data mewnol yr heddlu sy'n dangos cynnydd amlwg yn nifer y Gorchmynion Amddiffyn rhag Stelcio sy'n cael eu hystyried/ymholiadau

Gorchymyn Amddiffyn rhag Stelcio a gafwyd gan y Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil.

**Cynnydd Mehefin 2024**

- Mae rolau sefydledig y Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil a Chydgysylltydd Cyflawnwyr Stelcio yn sicrhau bod swyddogion yn goruchwylio defnydd swyddogion o ymyriadau megis gorchmynion sifil.
- Fel rhan o ymgyrch Flagship, dros gyfnod o fis, bydd Heddlu Dyfed-Powys yn canolbwyntio ar adolygu a ddylid ystyried unrhyw achosion byw ar gyfer Gorchymyn Amddiffyn rhag Stelcio.

**Gweithgaredd monitro parhaus SCHTh**

- Bydd SCHTh yn gofyn am ddiweddariadau ynghylch gweithredu egwyddorion Rhaglen Ymyrraeth Stelcio Amlasiantaeth yn y clinigau stelcio.
- Unwaith y bydd y clinigau stelcio yn ailddechrau, gydag egwyddorion Rhaglen Ymyrraeth Stelcio Amlasiantaeth wedi'u hymgorffori, bydd Cynghorydd Polisi SCHTh yn mynychu clinig i arsylwi'r broses.

**Argymhelliad 13: Dylai'r heddlu sicrhau bod yr holl ystyriaethau o asesiadau (fel y cynnydd yn y risg o laddiad) ac unrhyw ymyriadau (fel gorchmynion sifil a'r Rhaglen Myfyrio ar Berthnasoedd), p'un a gânt eu datblygu ai peidio, yn cael eu nodi gan swyddogion o fewn y system rheoli troseddau. Dylai hyn gynnwys pan fydd achosion yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd rheoli dyddiol.**

**Cynnydd Ionawr 2025**

- Mae proses Rhaglen Ymyrraeth Stelcio Amlasiantaeth newydd, os caiff ei chefnogi, yn cynnwys proses brysbennu/asesu amodol a fydd yn adolygu'r holl droseddau stelcio i nodi unrhyw ymyriadau a fyddai'n addas ar gyfer pob achos, gan asesu ei rinweddau ar gyfer ei gyfeirio at Raglen Ymyrraeth Stelcio Amlasiantaeth. Yn ystod y broses hon, byddant yn gallu gwirio a phrofi bod gan y swyddog ymchwilio gyfleoedd asesu ac ymyrryd sydd wedi'u dogfennu'n glir.
- Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gymorth ariannol ar gyfer proses Rhaglen Ymyrraeth Stelcio Amlasiantaeth, ond bydd hyn yn cael ei gynnwys yng nghynllun adrannol Diogelu Pobl Fregus ar gyfer 2025-26, gan geisio cymorth.

**Cynnydd Mehefin 2024**

- Mae prosesau wedi'u proffesiynoli drwy gyfarfodydd rheoli dyddiol yr heddlu lle mae uwch swyddogion yn gwirio a yw swyddogion wedi ystyried asesiadau risg/ymyriadau ac yn dwyn goruchwylwyr i gyfrif.

**Gweithgaredd monitro parhaus SCHTh**

- Mae Pennaeth Strategaeth a Pholisi SCHTh ar fin mynychu cyfarfod rheoli dyddiol yr heddlu i arsylwi ar y prosesau sicrwydd sydd ar waith.
- Bydd SCHTh yn gofyn am ddiweddariadau ynghylch gweithredu proses Rhaglen Ymyrraeth Stelcio Amlasiantaeth newydd.

Ionawr 2025

| Argymhellion Monitro Cyflawnwyr |
|---|
| **Argymhelliad 14: Dylai'r heddlu ystyried gweithredu prosesau i reoli gorchmynion sifil fel yr argymhellwyd gan arweinydd Trais yn Erbyn Menywod a Merched yr heddlu yn yr adolygiad o gam-drin domestig. Dylai hyn gynnwys mwy o weithgarwch dilynol a monitro unwaith y bydd ymyriadau, megis y Rhaglen Myfyrio ar Berthnasoedd wedi'u cwblhau.** |
| **Cynnydd Ionawr 2025**<br>• Mae gwaith yn mynd rhagddo gydag Uned Rheoli Troseddwyr Heddlu Dyfed-Powys a'r Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil i ddatblygu proses ar gyfer rheoli troseddwyr ar ôl rhoi gorchymyn sifil. Bydd hyn yn sicrhau bod gorchmynion yn cael eu holrhain a bod unrhyw ymyriad y cytunir arno fel rhan o orchymyn yn cael ei gyflawni. Bydd unrhyw ddiffyg cydymffurfio wedyn yn cael ei drin fel toriad.<br>• Mae'r Ditectif Uwcharolygydd ar gyfer Diogelu Pobl Fregus yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Banel Cynghori Goroeswyr Canolbarth a Gorllewin Cymru ar y gwaith hwn ac mae'n defnyddio'r grŵp i lunio ac adolygu'r prosesau. |
| **Cynnydd Mehefin 2024**<br>• Mae Pwyntiau Cyswllt Unigol yn cael eu sefydlu ar draws ardal Dyfed-Powys, sy'n cysylltu â'r Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil i reoli ac adolygu gorchmynion sifil. |
| **Gweithgaredd monitro parhaus SCHTh**<br>• Bydd SCHTh yn parhau i ymgysylltu â'r Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil a bydd yn gofyn am ddiweddariadau a data i alluogi adolygiad o'r broses hon i nodi sut mae'r broses hon yn mynd yn ei blaen. |

| **Argymhelliad 15: Dylai'r Swyddog Gorchmynion Sifil newydd gefnogi adolygiadau o orchmynion sifil.Dylai adolygiadau o'r fath gynnwys barn y dioddefwr.** |
|---|
| **Cynnydd Ionawr 2025**<br>• Mae rôl beilot yn cael ei chreu o Chwefror 2025 am 6 mis yn benodol ar gyfer ceisio gorchmynion sifil fel 'Swyddog Ceisiadau'. Bydd hyn yn gofyn am gysylltu â dioddefwyr i ofyn am eu barn a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddatblygiad y gorchymyn.<br>• Gobeithir y bydd y swyddog hwn yn cyflymu'r broses ceisiadau o ystyried y bydd ganddo amser wedi ei neilltuo, y bydd yn datblygu perthynas waith ardderchog â Gwasanaethau Cyfreithiol, ac yn dod yn arbenigwr pwnc. |
| **Cynnydd Mehefin 2024**<br>• Mae Pwyntiau Cyswllt Unigol yn cael eu sefydlu ar draws ardal Dyfed-Powys, sy'n cysylltu â'r Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil i reoli ac adolygu gorchmynion sifil.<br>• Mae'r Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil yn cynnal asesiadau risg yn ei adolygiadau o orchmynion sifil ac yn cynghori swyddogion ar y camau priodol i'w cymryd, megis pryd y dylent siarad â dioddefwyr. |
| **Gweithgaredd monitro parhaus SCHTh**<br>• Trwy bresenoldeb yn y cyfarfod perthnasol, bydd SCHTh yn monitro llwyddiant y Swyddog Ceisiadau peilot. |

Ionawr 2025

| Argymhellion Dioddefwyr |
|---|
| **Argymhelliad 16: Dylid annog swyddogion i ailedrych ar gytundebau cyswllt gyda dioddefwyr ar wahanol gamau o'r ymchwiliad.** |
| **Cynnydd Ionawr 2025**<br>• Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu llwyfan rheoli dioddefwyr/cyswllt newydd a fydd yn cynorthwyo i fonitro cydymffurfiaeth contractau dioddefwyr (yn benodol dioddefwyr sydd wedi'u dynodi'n ddioddefwyr uwch). |
| **Cynnydd Mehefin 2024**<br>• Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi ymgymryd â darn o waith i sicrhau bod asesiad o anghenion dioddefwyr yn cael ei gynnal. Adroddir ar y canfyddiadau i'r Is-grŵp Dioddefwyr a Thystion. |
| **Gweithgaredd monitro parhaus SCHTh**<br>• Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi rhoi gwybod y bydd y llwyfan rheoli dioddefwyr/cyswllt yn cael ei fonitro gan Is-grŵp Dioddefwyr a Thystion y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, y mae SCHTh yn ei gydlynu ac yn ei fynychu. |

## Diweddariad ar Argymhellion SCHTh

Roedd un o argymhellion yr adolygiad, y nodwyd ei fod wedi'i gwblhau yn yr adroddiad cynnydd blaenorol, yn pwysleisio pwysigrwydd gwasanaethau cymorth arbenigol i ddioddefwyr stelcio. Dywedodd argymhelliad 18, a osodwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer SCHTh, *'Dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r cymorth a ddarperir i ddioddefwyr stelcio yn y broses o ail-dendro gwasanaethau dioddefwyr a thystion sydd ar ddod gan SCHTh'.*

Yn adroddiad Mehefin 2024, rhoddodd SCHTh wybod i'r Panel Heddlu a Throseddu am y bwriad i gychwyn cynllun peilot gyda Gwasanaeth Eirioli Stelcio Cenedlaethol Paladin, i gynnwys Gweithiwr Achos Eirioli Stelcio Annibynnol a hyfforddiant i weithwyr proffesiynol.

Er nad yw argymhellion Heddlu Dyfed-Powys a nodwyd eu bod wedi'u cwblhau'n flaenorol yn cael eu hystyried uchod, byddai'n esgeulus i'r Panel Heddlu a Throseddu beidio â rhoi diweddariad ar y cynllun peilot, a ddechreuodd ar 1 Medi 2024:

- Mae dau Weithiwr Achos irioli Stelcio Annibynnol rhan-amser wedi'u penodi, wedi'u neilltuo i ardal Dyfed-Powys.
- Maent wedi mynychu, ac yn parhau i fynychu, llu o sesiynau hyfforddi.
- Mae'r ddau Weithiwr Achos Eirioli Stelcio Annibynnol yn mynychu hyfforddiant iaith Gymraeg ochr yn ochr â gwirfoddolwyr Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.
- Hyd yma, mae 13 o ddioddefwyr stelcio wedi cael/yn cael eu cefnogi.
- Yn eu hadroddiad monitro chwarterol, cynhwysodd Paladin astudiaeth achos yn manylu ar ymyrraeth a chymorth a ddarparwyd i un o'u cleientiaid o'r ardal hon. Mae swm cadarnhaol a chalonogol o weithgarwch wedi'i wneud/yn cael ei wneud.
- Mae dwy sesiwn hyfforddi wedi'u cynnal ar gyfer gweithwyr proffesiynol, ac mae trydydd sesiwn wedi'i gynllunio ar gyfer mis Mawrth 2025. Mae cynrychiolwyr o

amrywiaeth o sefydliadau eisoes wedi mynychu, gan sicrhau dealltwriaeth eang o stelcio ar draws ardaloedd Dyfed-Powys.

## Casgliad

Mae'n galonogol clywed bod cynnydd yn parhau i gael ei wneud yn erbyn y rhan fwyaf o'r argymhellion a osodwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Mae cyflwyno Swyddog Ceisiadau er enghraifft, er ei fod yn gynllun peilot ar hyn o bryd, yn gam cadarnhaol i ymgysylltu â dioddefwyr stelcio mewn perthynas â gorchmynion sifil: Gofynnir am farn dioddefwyr, a byddant yn cael eu diweddaru gan y swyddog.

Fodd bynnag, mae'n destun pryder y gallai cyfyngiadau ariannol fod yn llesteirio cynnydd yn erbyn rhai argymhellion. Mae swydd y Cydgysylltydd Cyflawnwyr Cam-drin Domestig a Stelcio, er enghraifft, y mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi'i ariannu'n flaenorol, yn hanfodol er mwyn parhau â gwelliannau pwysig i wasanaethau ar gyfer dioddefwyr stelcio. Mae SCHTh yn ceisio cadarnhau trefniadau ariannu. Bydd pryderon yn ymwneud â threfniadau partneriaethau ariannu ehangach yn cael eu codi gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu dros yr wythnosau nesaf.

Mae'n amlwg bod Ditectif Uwcharolygydd Diogelu Pobl Fregus Heddlu Dyfed-Powys wedi gosod cynllun datblygu clir ar gyfer y maes portffolio sy'n ymgorffori argymhellion yr adolygiad craffu manwl. Bydd y Ditectif Uwcharolygydd yn goruchwylio gweithrediad y cynllun datblygu.

Bydd SCHTh yn parhau i fonitro cynnydd trwy ystyried data, presenoldeb mewn cyfarfodydd yn ymwneud â stelcio, a chynnal cyfathrebu rheolaidd â'r swyddogion arweiniol.